
Arweiniad i...

# ddaearyddiaethau ystadegol




Data Cymru

Cynhyrchwyd gan: Data Cymru
Cyhoeddwyd: Awst 2023

029 2090 9500

ymholiadau@data.cymru

www.data.cymru

Mae’r arweiniad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys


1. Beth yw data daearyddol? ....... 1
2. Beth yw daearyddiaethau gweinyddol? ....... 2
3. Beth yw daearyddiaethau ystadegol y Cyfrifiad? ....... 4
4. Beth yw daearyddiaethau iechyd? ....... 6
5. Beth yw daearyddiaethau post? ....... 8
6. Daearyddiaethau gweinyddol eraill ....... 9
7. Tablau cyfeirio a siâp ....... 13
8. Adnoddau pellach ....... 15

# 1. Beth yw data daearyddol?

Mae lle a gofod yn siapio'n bywydau ni, o ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, i gyfansoddiad yr economi leol, i'r dirwedd sy'n pennu ble gallwn ni adeiladu. Mae deall pa 'olwg' sydd ar ardal yn rhan bwysig o lunio polisi effeithiol. I gyflawni hyn, mae ymchwilwyr, swyddogion, a dadansoddwyr masnachol yn defnyddio dosbarthiadau daearyddol i safoni dadansoddiadau a chymariaethau daearyddol.

Mae llawer o ddulliau o ddosbarthu daearyddiaethau; mae dosbarthiadau wedi cael eu dylunio i fodloni anghenion rhanddeiliaid gwleidyddol, gweinyddol, iechyd, a dadansoddol ac, am hynny, mae llawer o amrywiad yn y dosbarthiadau daearyddol sydd ar gael. Gall fod yn anodd gwybod pa ddosbarthiad i'w ddefnyddio, pryd i'w ddefnyddio, a sut mae'n ymwneud â daearyddiaethau eraill.

Mae rhai o'r dosbarthiadau hyn yn gweddu'n berffaith i'w gilydd, gyda lefelau is yn ffitio'n union o fewn lefelau uwch. Mae hyn yn golygu bod lefelau is (e.e. ardaloedd cynnyrch ehangach is) yn ffitio gyda'i gilydd fel darnau jig-so i ffitio'n union i amlinell y lefelau uwch (e.e. ardaloedd cynnyrch ehangach canol). Mae hyn yn gallu bod yn hynod o ddefnyddiol wrth grynhoi / datgrynhoi data. Ond pan na fydd dosbarthiadau yn gorgyffwrdd yn berffaith, yn aml mae'n dal yn bosibl cysylltu data gan ddefnyddio tablau cyfeirio. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynhyrchu'r tablau hyn, sy'n defnyddio methodoleg 'ffit gorau' i gysylltu dosbarthiadau gwahanol â'i gilydd. Gall y tablau hyn gael eu defnyddio i 'drosi' data o Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA), er enghraifft, i ward. Mae Data Cymru yn cynnal tabl cyfeirio o'r dosbarthiadau mwyaf cyffredin. Gallwch chi ddefnyddio hwn i chwilio am enwau daearyddol, codau, yn ogystal â'r perthnasoedd rhwng gwahanol ddosbarthiadau daearyddol.

Nid oes unrhyw sefydliad unigol sy'n gyfrifol am wybodaeth ddaearyddol yng Nghymru. Mae daearyddiaethau yn cael eu creu a'u cynnal gan lawer o sefydliadau, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, y Post Brenhinol, yr Arolwg Ordnans, ac eraill. Bydd yr arweiniad hwn yn amlinellu pwy yw'r cyhoeddwyr pennaf, am beth maen nhw'n gyfrifol, a ble i gael gafael ar eu data daearyddol.

## 2. Beth yw daearyddiaethau gweinyddol?

Mae pob daearyddiaeth fel darnau pos sy'n creu map o gyfandir, gwlad, rhanbarth, ardal cyngor, ac yn y blaen. Mae gan y darnau pos hyn siapau a meintiau gwahanol am eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol. At ei gilydd, mae daearyddiaethau gweinyddol yn ddaearyddiaethau lefel gymharol isel a gaiff eu defnyddio i gefnogi gwaith llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

O fwriad, mae llywodraethau canolog a lleol yn gweithio ar sail ardaloedd. Maen nhw'n darparu gwasanaethau ar draws ddaearyddiaeth ddiffiniedig, megis:

- gwlad (e.e. Cymru);
- awdurdod unedol neu'r hyn sy'n cael ei alw'n gyffredin yn awdurdod lleol (e.e. Ynys Môn);
- ward etholiadol (e.e. Gogledd Llandrindod); a
- 'chymuned' (e.e. Sili a Larnog).

Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu galw'n ddaearyddiaethau gweinyddol am eu bod yn bodoli'n bennaf ar gyfer gweinyddiaeth wleidyddol a sifil. Am hynny, mae cynhyrchwyr ystadegau'n cyhoeddi llawer o ddata ar y daearyddiaethau hyn.

Mae pob daearyddiaeth weinyddol yn defnyddio codau i ddiffinio ardaloedd. Mae enwau'n cael eu defnyddio hefyd ond dim ond pan fydd enw swyddogol wedi'i ddynodi trwy ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae gan awdurdodau unedol godau ac enwau, am fod pob awdurdod lleol yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth. Serch hynny, fel codau mae ardaloedd cynnyrch ehangach is yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dim ond am nad oes enwau swyddogol wedi'u dynodi mewn deddfwriaeth.

Yng Nghymru, mae ***pedair*** prif ddaearyddiaeth weinyddol, fel a welir yn **Tabl 1**.

**Tabl 1: Daearyddiaethau gweinyddol yng Nghymru**

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n diffinio'r ffiniau? |
|---|---|---|
| Awdurdod unedol | • Mae 22 awdurdod unedol yng Nghymru.<br>• Mae awdurdodau unedol yn cwmpasu Cymru gyfan.<br>• Cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'cynghorau lleol' neu 'awdurdodau lleol'. Cafodd eu ffiniau eu diffinio yn Ebrill 1996 gan wedi aros heb eu newid ers hynny.<br>• Mae maint, natur wledig, a chyfansoddiad demograffaidd-gymdeithasol awdurdodau unedol yng Nghymru yn amrywio. Powys yw'r awdurdod unedol mwyaf, gan gwmpasu ardal o fwy na 5,000 cilometr sgwâr, a | Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) trwy ddeddfwriaeth |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n diffinio'r ffiniau? |
|---|---|---|
| | Blaenau Gwent yw'r lleiaf, gan gwmpasu ardal o ddim ond 100 cilometr sgwâr.<br><br>• Mae Cymru'n cynnwys dim ond un haen o lywodraeth leol, ond yn Lloegr mae llywodraeth leol yn ymrannu'n ddwy haen; awdurdodau unedol a dosbarthau.<br><br>• Mae codau awdurdod unedol Cymru yn dechrau ag W06. Er enghraifft, y cod am Ynys Môn yw W06000001. | |
| Ward etholiadol | • Mae 762 o wardiau yng Nghymru.<br><br>• Maent yn ffitio'n berffaith o fewn ardaloedd awdurdodau unedol.<br><br>• Mae wardiau etholiadol yn cwmpasu Cymru gyfan.<br><br>• Mae pob ward yn cael ei gynrychioli gan o leiaf un Cynghorydd lleol. O ganlyniad, mae etholiadau llywodraeth leol yn digwydd ar lefel wardiau etholiadol.<br><br>• Ers 2021, mae 'cyfartaledd' o ryw 4,000 o breswylwyr y ward yng Nghymru.<br><br>• Yn ddamcaniaethol, mae wardiau etholiadol yn cael eu dylunio i gynnwys poblogaethau o faint tebyg. Ond, mewn gwirionedd, mae'n anodd cyflawni hyn oherwydd meintiau a chyfansoddiadau gwahanol awdurdodau unedol. Er enghraifft, mae awdurdod unedol gwledig iawn fel Powys yn cynnwys wardiau sy'n fwy o faint ond yn llai eu poblogaeth nag ardal hynod drefol fel Caerdydd.<br><br>• Mae newidiadau i wardiau etholiadol yn digwydd yn gymharol aml (hyd at yn flynyddol), a chafodd y newidiadau diweddaraf eu deddfu yng Nghymru ym Mai 2022, cyn yr etholiadau llywodraeth leol. | Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn adolygu ffiniau wardiau ac yn gwneud argymhellion.<br><br>Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) sy'n deddfu'r argymhellion trwy ddeddfwriaeth. |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy’n diffinio’r ffiniau? |
|---|---|---|
| | • Mae codau wardiau etholiadol Cymru yn dechrau ag W05. Er enghraifft, y cod am Fro Aberffraw yw W05001494. | |
| Cymuned | • Mae 878 o gymunedau yng Nghymru.<br>• Maent yn ffitio’n berffaith o fewn ardaloedd awdurdodau unedol.<br>• Cymuned yw’r ddaearyddiaeth weinyddol leiaf sydd ar gael yng Nghymru.<br>• Yn Lloegr, mae cymuned yn cael ei galw’n blwyf.<br>• Mae cymunedau’n cwmpasu Cymru gyfan.<br>• Mae gan y mwyafrif o gymunedau yng Nghymru (mwy na 730) gyngor lleol neu gyngor tref cysylltiedig sy’n gyfrifol am weinyddu polisïau lleol.<br>• Mae codau cymunedau Cymru yn dechrau ag W04. Er enghraifft, y cod am Gymuned Aberffraw yw W04000001. | Awdurdodau unedol sy’n gyfrifol yn y pen draw am adolygu ffiniau ‘cymuned’. Yn y sefyllfa hon, mae eu hargymhellion yn cael eu trosglwyddo i’r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i’w deddfu trwy ddeddfwriaeth.<br><br>Fodd bynnag, gall awdurdodau unedol, neu’r Gweinidog dros Lywodraeth Leol, ofyn i’r Comisiwn adolygu ar eu rhan. Yn y sefyllfa hon, rhaid i Lywodraeth Cymru ddeddfu’r argymhellion wedyn trwy ddeddfwriaeth. |

## 3. Beth yw daearyddiaethau ystadegol y Cyfrifiad?

Mae cyfrifiad yn cyfrif poblogaeth cenedl, neu ranbarth daearyddol arall. Mae’n cofnodi gwybodaeth am nodweddion y boblogaeth, fel oedran, rhyw, a galwedigaeth. Mae daearyddiaethau ystadegol Cyfrifiad yn unedau sydd wedi cael eu creu gan ystadegwyr i helpu’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i weinyddu ac adrodd ar y Cyfrifiad.

Mae daearyddiaethau ystadegol Cyfrifiad yn ffitio o fewn ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae ardal gynnyrch (OA), ardal gynnyrch ehangach is (LSOA), ac ardal gynnyrch ehangach ganol (MSOA), yn cyfansoddi daearyddiaethau ystadegol y Cyfrifiad, fel a nodir yn **Tabl 2**.

Nid yw'n syndod i ddaearyddiaethau ystadegol y Cyfrifiad gael eu diweddaru diwethaf ar gyfer Cyfrifiad 2021. Hwn oedd y diweddariad cyntaf ers Cyfrifiad 2011. At ei gilydd mae'r daearyddiaethau ond yn cael eu diweddaru tuag amser Cyfrifiad am eu fod yn sail i lawer o ystadegau yn y blynyddoedd rhyngddynt felly mae'n rhaid iddynt aros mor sefydlog â phosibl.

**Tabl 2: Daearyddiaethau ystadegol y Cyfrifiad yng Nghymru**

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol (MSOA) | • Mae 408 o MSOAs yng Nghymru.<br>• Yn gyffredinol, mae MSOA yn cynnwys pedair neu bum LSOA.<br>• Mae MSOA yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd a phoblogaeth breswyl arferol rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.<br>• Mae codau MSOA Cymru yn dechrau ag W02. Er enghraifft, y cod am Ynys Môn 007 (enw swyddogol yr MSOA) yw W02000007. | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) | • Mae 1,917 o LSOAs yng Nghymru.<br>• Cafodd y ddaearyddiaeth ei chyflwyno yn 2004.<br>• Mae LSOAs yn ffitio o fewn MSOAs.<br>• Yn gyffredinol, mae LSOA yn cynnwys pedair neu bum OA.<br>• Mae LSOA yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd a phoblogaeth breswyl arferol rhwng 1,000 a 3,000 o bobl.<br>• Mae codau LSOA Cymru yn dechrau ag W01. Er enghraifft, y cod am Ynys Môn 007F (enw swyddogol yr LSOA) yw W01002008. | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Ardal Gynnyrch (OA) | • Mae 10,275 o OAs yng Nghymru.<br>• Cafodd y ddaearyddiaeth ei chyflwyno fel rhan o Gyfrifiad 2001. | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| | • OAs yw'r ddaearyddiaeth ystadegol leiaf sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.<br><br>• Mae OAs yn ffitio o fewn LSOAs.<br><br>• Mae OA yn cynnwys rhwng 40 a 250 o aelwydydd a phoblogaeth breswyl arferol rhwng 100 a 625 o bobl.<br><br>• Mae codau OA Cymru yn dechrau ag W00. Nid oes ganddyn nhw enwau swyddogol. Er enghraifft, un o'r OAs o fewn LSOA Ynys Môn 007F yw W00000001. | |

## 4. Beth yw daearyddiaethau iechyd?

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn cael ei weinyddu a'i gyflenwi, yn rhannol, trwy saith bwrdd iechyd lleol. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflenwi gofal optegol, deintyddol, fferyllol, iechyd meddwl a gofal sylfaenol.

Mae byrddau iechyd lleol wedi eu seilio ar olion troed awdurdodau unedol, neu gyfuniad, fel a welir yn **Tabl 3**.

**Tabl 3: Y daearyddiaethau iechyd a ddefnyddir amlaf yng Nghymru**

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| Ardal bwrdd iechyd lleol (BILl) | • Mae saith ardal bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.<br><br>• Mae ardaloedd awdurdodau unedol yn ffitio o fewn BILl:<br><br>  ○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cwmpasu:<br><br>    ▪ Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam<br><br>  ○ Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cwmpasu:<br><br>    ▪ Powys | Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) trwy ddeddfwriaeth |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| | ○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cwwmpasu:<br>▪ Sir Gâr, Ceredigion, a Sir Benfro<br>○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cwmpasu:<br>▪ Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot<br>○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cwmpasu:<br>▪ Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf<br>○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cwmpasu:<br>▪ Caerdydd a Bro Morgannwg<br>○ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cwmpasu:<br>▪ Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, a Thorfaen<br>• Ar 1 Ebrill 2019, cafodd newid ffin ei ddeddfu, a symudodd wasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a oedd newydd ei sefydlu. Ar yr un pryd, sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a oedd yn cynnwys awdurdodau unedol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn unig. Mae rhagor o fanylion ar gael yma.<br>• Mae codau BILl Cymru yn dechrau ag W11. Er enghraifft, y cod am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw W11000023. | |

## 5. Beth yw daearyddiaethau post?

Mae daearyddiaethau post yn cyfeirio at eiddo neu grwpiau o eiddo. Mae cyfeiriad yn set unigryw o ddynodwyr sy'n cyfeirio at eiddo penodol. Mae mynediad i restr cyfeiriadau gyfredol yn hanfodol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae dwy brif ffynhonnell data post, fel a welir yn **Tabl 4**.

**Tabl 4: Y daearyddiaethau post a ddefnyddir amlaf yng Nghymru**

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| Cod post | • Mae tuag 1.8 miliwn o godau post yn y DU.<br>• Mae codau post yn cael eu defnyddio i adnabod ardaloedd bach trwy gyfrwng cod sy'n cynnwys llythrennau a rhifau.<br>• Mae cod post yn cynrychioli ardal, nid pwynt. Er enghraifft, pan roddwch god post i mewn i *sat-nav* bydd yn mynd â chi i'r cyfeiriad sydd yng nghanol yr ardal fel ei gynnig gorau o ble rydych am fynd mewn gwirionedd.<br>• Mae pob cod post yn cynnwys tua 15 eiddo, ond gall hyn amrywio'n fawr.<br>• Mae data codau post yn cael ei gynnal gan y Post Brenhinol drwy ei Ffeil Cyfeiriadau Codau Post (PAF), sy'n cael ei diweddaru'n ddyddiol.<br>• Er mwyn i gyfeiriad newydd gael ei ychwanegu at y PAF mae'n rhaid iddo allu derbyn post a bod yn ddiogel i'w gyrraedd (er enghraifft, rhaid bod gwaith adeiladu sy'n golygu bod rhaid gwisgo het galed wedi dod i ben).<br>• Anaml iawn y caiff cod post ei newid neu ei ddiweddaru ond mae'n bosibl deisebu'r Post Brenhinol i wneud hynny.<br>• Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwlado yn diweddaru ac yn cyhoeddi ffeil codau post pob chwarter. Mae Data Cymru yn trefnu bod hon ar gael yma hefyd. | Y Post Brenhinol |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| AddressBase | • Un elfen yn unig o gyfeiriad yw cod post; mae angen gwybodaeth am enw / rhif yr eiddo, stryd, a thref hefyd i adnabod yr union eiddo.<br><br>• Mae AddressBase yn gynnrych data sy'n cael ei gynnal gan yr Arolwg Ordnans sy'n gweithredu fel un ffynhonnell ar gyfer pob cyfeiriad ym Mhrydain Fawr.<br><br>• Mae cyfeiriadau post y Post Brenhinol (gan gynnwys data o Ffeil Cyfeiriadau Codau Post y Post Brenhinol), rhifau Cyfeirnod Unigryw Eiddo (UPRN), a chyfesurynnau yn cael eu paru ar gyfer pob eiddo.<br><br>• Gall data AddressBase gael ei ddefnyddio mewn cronfeydd data a meddalwedd fapio bwrpasol (GIS).<br><br>• Mae'r ffeil yn cael ei diweddaru bob chwe wythnos.<br><br>• Mae'n rhaid i sefydliadau sector preifat dalu am fynediad ond gall sefydliadau sector cyhoeddus ei chyrchu am ddim o dan delerau Cytundeb Geo-ofodol y Sector Cyhoeddus (Saesneg yn unig). Gwiriwch yma i weld a ydy'ch sefydliad chi yn gymwys o dan y Cytundeb. | Yr Arolwg Ordnans |

## 6. Daearyddiaethau gweinyddol eraill

Mae llawer o ddaearyddiaethau gweinyddol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, y rhai mwyaf perthnasol i gydweithwyr llywodraeth leol yw parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs), a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs), fel a welir yn **Tabl 5**.

**Tabl 5: Daearyddiaethau gweinyddol eraill yng Nghymru**

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| Parciau Cenedlaethol | • Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru:<br>○ Eryri.<br>○ Arfordir Sir Benfro; a<br>○ Bannau Brycheiniog.<br>• **Nid yw** ardaloedd awdurdodau unedol yn ffitio o fewn ffiniau parciau cenedlaethol. Er enghraifft, mae parc cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhan, ond nid y cyfan, o awdurdodau unedol Gwynedd a Chonwy.<br>• Mae parciau cenedlaethol yn cael eu rheoli gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sy'n rhan o deulu llywodraeth leol.<br>• Dau nod sydd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sef:<br>○ Cadw natur a threftadaeth; a<br>○ Hyrwyddo'r parciau, a'r hyn maen nhw'n ei gynrychioli, i'r cyhoedd.<br>• Hefyd dim ond yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd ag awdurdod cynllunio dros ardal y parc cenedlaethol. | Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) trwy ddeddfwriaeth |
| Awdurdodau tân ac achub | • Mae tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.<br>• Mae ardaloedd awdurdodau unedol yn ffitio o fewn ffiniau'r awdurdodau tân ac achub:<br>○ Mae Gogledd Cymru yn cynnwys: | Senedd y DU trwy ddeddfwriaeth. Gweler yma am fwy o fanylion. |

<table>
<tr><th>Daearyddiaeth</th><th>Disgrifiad</th><th>Pwy sy’n gallu newid y ffiniau?</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li><ul><li><ul><li>Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam</li></ul></li><li>Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys:<ul><li>Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr, Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot</li></ul></li><li>Mae De Cymru yn cynnwys:<ul><li>Pen-y-bont, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, a Chasnewydd</li></ul></li></ul></li><li>Mae’r awdurdodau tân ac achub yn gyfrifol am ddelio â galwadau am gymorth yn achos tân ac argyfyngau eraill.</li><li>Mae awdurdodau tân yn rhan o lywodraeth leol ers 1948.</li></ul></td><td></td></tr>
<tr><td>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs)</td><td><ul><li>Mae saith RPBs yng Nghymru. Mae ardaloedd awdurdodau unedol yn ffitio o fewn ffiniau’r RPB:<ul><li>Mae Gogledd Cymru yn cynnwys:<ul><li>Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam</li></ul></li><li>Mae Powys yn cynnwys:<ul><li>Powys</li></ul></li><li>Mae Gorllewin Cymru yn cynnwys:</li></ul></li></ul></td><td>Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) trwy ddeddfwriaeth</td></tr>
</table>

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| |         ▪ Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro<br>    ○ Mae Gorllewin Morgannwg yn cynnwys:<br>        ▪ Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot<br>    ○ Mae Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys:<br>        ▪ Pen-y-bont, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf<br>    ○ Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys:<br>        ▪ Caerdydd a Bro Morgannwg<br>    ○ Mae Gwent yn cynnwys:<br>        ▪ Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy<br>• Sefydlwyd RPBs fel rhan o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>• Nod RPBs yw gwella llesiant y boblogaeth a chyflawni gwelliannau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. | |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) | • Mae 22 PSB yng Nghymru. Un ar gyfer pob awdurdod unedol.<br>• Mae gan PSBs bedwar aelod statudol, sef:<br>    ○ Y cyngor lleol<br>    ○ Y bwrdd iechyd lleol | Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru) trwy ddeddfwriaeth |

| Daearyddiaeth | Disgrifiad | Pwy sy'n gallu newid y ffiniau? |
|---|---|---|
| | ○ Y bwrdd tân ac achub lleol<br>○ Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Gall PSBs wahodd cyrff ychwanegol i eistedd ar y bwrdd.<br>• Sefydlwyd PSBs fel rhan o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Tasg PSBs yw cyflawni'r saith nod llesiant, fel y'u pennir yn arweiniad swyddogol Llywodraeth Cymru. | |

## 7. Tablau cyfeirio a siâp


### Tablau cyfeirio

Mae tablau cyfeirio yn gadael i chi weld sut mae daearyddiaethau gwahanol yn rhyngweithio. Hefyd mae'n bosibl defnyddio tabl cyfeirio i grynhoi / datgrynhoi data o un ddaearyddiaeth i'r llall.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio methodoleg 'ffit gorau' i greu tablau cyfeirio. Maent yn canfod canol pob uned ddaearyddol (e.e. LSOA) ar sail y boblogaeth. Yr enw ar y pwynt hwn yw 'craidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth'; jargon am ganol y ddaearyddiaeth ar sail sut mae'r boblogaeth wedi'i dosbarthu. Er enghraifft, bydd gan LSOA sydd â dinas fawr wrth ei ffin ddwyreiniol fwy o'i boblogaeth yn preswylio ar yr ymyl dwyreiniol na'r un gorllewinol, felly bydd y craidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth yn cael ei lusgo tua'r dwyrain. Mae'r Swyddfa Ystadegol Gwladol yn defnyddio'r pwynt hwn yn brocsi am ganol yr LSOA. Drwy ddeall pa lefel ddaearyddiaeth uwch (e.e. MSOA) mae'r creiddiau lefel is (e.e. LSOA) yn dod i mewn iddi, gall y Swyddfa greu cysylltiadau ar draws dosbarthiadau daearyddol.

Mae'r fethodoleg hon yn rymus am ei bod yn gymharol syml. Fodd bynnag, mae dibynnu ar ddosbarthiad poblogaeth yn hytrach nag arwynebedd tir yn gallu creu rhai parau rhyfedd. Er enghraifft, mae **Ffigur 1** yn cynrychioli senario realistig lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw ar ffin ddwyreiniol LSOA. Mae'r craidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth felly wedi'i leoli wrth ymyl ddwyreiniol eithafol yr LSOA. Gall hyn effeithio ar ba MSOA mae'r LSOA yn cael ei baru ag ef. Er y gall y rhan fwyaf o'r arwynebedd tir fod o fewn MSOA 1 mae craidd y boblogaeth (ac felly'r rhan fwyaf o'r boblogaeth) mewn gwirionedd o fewn MSOA 2. Mae MSOA 2 felly wedi'i ddynodi i eistedd uwchlaw'r LSOA yn y tabl cyfeirio.

### Ffigur 1 : Cynrychiolaeth o'r fethodelog 'ffit gorau'




Cymerwch ofal bob tro, a gwiriwch eich canlyniadau, wrth ddefnyddio tabl cyfeirio. Cofiwch mai 'ffit gorau' ydyw, ac nid 'ffit perffaith'!

Gallwch chi lawrlwytho tablau cyfeirio daearyddol o:

Data Cymru, *InfoBaseCymru – Geography Tables*: https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/geographytables

Porth Daearyddiaeth Agored y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig): https://geoportal.statistics.gov.uk/

## Data ffiniau

Os ydych chi am ddelweddu data ar fap, efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i ddata ffiniau (sydd weithiau'n cael eu galw'n "shapefiles" yn anffurfiol). Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd mawr o gyfesurynnau pwynt sydd, o'u huno, yn creu amlinell (neu 'siâp') ardal. Mae data ffiniau yn gallu cael ei ddefnyddio gyda:

- meddalwedd ddaearyddol fel QGIS neu ArcGIS;
- rhaglenni ystadegol, fel R a Python; neu
- feddalwedd dangosfyrddau, fel PowerBI a Tableau.

Am fod ein Daear yn grwn, man cychwyn holl ddata ffiniau yw'r golwg sfferig. Serch hynny, yn aml mae angen i ni edrych ar ddata daearyddolal mewn dau ddimensiwn, er enghraifft wrth edrych ar fap. Gall dulliau gwahanol gael eu defnyddio i gyrfiro pa olwg fyddai ar amlinell neu ardal siâp arbennig o'i estyn ar draws wyneb gwastad. Mae'r trawsnewid o'r golwg sfferig i olwg gwastad yn cael ei alw'n 'dafluniad'.

Wrth ddefnyddio neu ddehongli data ffiniau, mae'n bwysig deall pa 'dafluniad' sydd wedi cael ei ddefnyddio. Mae rhai dulliau'n canolbwyntio ar gynnal siâp y ffin fel yr oedd ar y sffêr, ac eraill yn canolbwyntio ar gynnal yr arwynebedd o fewn y ffin fel yr oedd ar y sffêr. Mae'r naill a'r llall yn arwain at rywfaint o wyrdro, gan ei bod yn amhosibl trosi siâp yn berffaith o sphere i wyneb gwastad. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn deall pa ddull gafodd ei ddefnyddio i wneud y trawsnewid hwn ac effeithiau hynny ar ddehongli a defnyddiadwyedd y data canlyniadol. Wrth weithio ar ddaearyddiaethau bach (e.e. Cymru neu'r DU) mân wahaniaeth sydd rhwng tafluniadau gwahanol, a hynny am fod

nad yw crymedd y ddaear yn cael effaith arwyddocaol pan fydd pwyntiau'n gymharol agos at ei gilydd.

Mae data ffiniau yn dod mewn llawer o fformatau, fel shapefiles (.shp), geojson, a topojson. Hefyd gall data ffiniau ddod mewn cydraniadau gwahanol; mae ffeiliau cydraniad uwch yn dangos mwy o fanylion ond yn gallu defnyddio mwy o bŵer cyfrifiaduro a chymryd mwy o amser i lwytho. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn trefnu bod data ffiniau ar gael yn ôl y penllanw cymedrig. Dyma'r ffin gyfartalog mae'r môr yn ei chyrraedd ar benllanw. Mae rhai darparwyr hefyd yn trefnu bod data ffiniau ar gael yn ôl y distyll cymedrig, y ffin gyfartalog mae'r môr yn ei chyrraedd ar ddistyll. Wrth weithio gyda data ffiniau mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r math mwyaf priodol sy'n bodloni anghenion eich prosiect a'ch cynulleidfa.

Gallwch lawrlwytho data ffiniau o:

Porth Daearyddiaeth Agored y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig): https://geoportal.statistics.gov.uk/

Offeryn Mapiau Data Cymru Llywodraeth Cymru: https://mapdata.llyw.cymru/

Porth daearyddiaeth yr Arolwg Ordnans (bydd angen i chi fod yn rhan o'r sector cyhoeddus i gyrchu'r ffeiliau hyn am ddim o gan Gytundeb Geo-ofodol y Sector Cyhoeddus) (Saesneg yn unig): https://beta.ordnancesurvey.co.uk/products/boundary-line

## 8. Adnoddau pellach

Yr Arolwg Ordnans, *What is the Royal Mail Postcode Address File? (Saesneg yn unig)*: https://www.ordnancesurvey.co.uk/blog/royal-mail-postcode-address-file

Yr Arolwg Ordnans, *AddressBase support (Saesneg yn unig)*: https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/tools-support/addressbase-support

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Geography (Saesneg yn unig)*: https://www.ons.gov.uk/methodology/geography

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *A beginner's guide to UK geography (Saesneg yn unig)*: https://geoportal.statistics.gov.uk/documents/a-beginners-guide-to-uk-geography-2021-v1-0-1/explore

Llywodraeth Cymru, *Ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru*: https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru

Llywodraeth Cymru, *Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs)*: https://www.llyw.cymru/byrddau-partneriaeth-rhanbarthol

Llywodraeth Cymru, *Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs)*: https://www.llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, *Parciau Cenedlaethol*: https://www.wlga.cymru/national-parks

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, *Tân ac Achub*: https://www.wlga.cymru/fire-and-rescue

Am wybodaeth bellach am y canllaw hwn neu i weld ein cyfres o ganllawiau ewch i:


**www.data.cymru**

ymholiadau@data.cymru

029 2090 9500


Data Cymru